



Unwaith mae'r **Ynysydd Wal Allanol** wedi ei gwblhau i waliau allanol eich cartref gellir gweld newid anhygoel i'r edrychiad a theimlo'r newid mewn tymheredd y tu mewn i'r ty. Beth sydd angen ei wneud i gadw'r edrychiad a sicrhau'r perfformiad? Yn draddodiadol ni fydd Ynysydd Wal Allanol Weber angen ei gynnal a'i gadw ond i ischrâu'r edrychiad esthetig ac effeithiolrwydd perfformiad yr ynysydd thermal dilynwch y canllawiau isod....

Gosod eitemau i'r waliau

Yn dilyn y gwaith os ydych yn penderfynnu gosod eitemau megis disg lloeren, pyst ar gyfer giataiau, basgedi crog a.y.y.b. gofalwch fod yr eitemau'n cael eu gosod yn gywir gan sicrhau fod y sgrif/hoelen yn ddigon hir i fynd drwy'r Ynysydd i'r wal gwreiddiol.

- Dylid gofalu peidio gwasgu'r ynysydd oherwydd gall fod yn ataliol i berfformiad yr ynysydd yn ogystal ac ataliol i sicrwydd y gwrthrych a osodir i'r wal. Rhaid gosod unrhyw wrthrych i wal wreiddiol yr eiddo ac nid i'r Ynysydd Wal Allanol.
- Ni ddylid defnyddio drill taro parhaus oherwydd gall ddifetha gwead y rhwyllau; gellir lleihau'r risg drwy ddefnyddio drill ebill a blaen diamwnd iddo.
- Dylid defnyddio seliwr mastig i atal dŵr rhag mynd i mewn i'r system yn enwedig o amgylch unrhyw dwll a wneir wrth osod gwrthrych i'r wal.
- Dylid gofyn caniatad **CCG** cyn gosod unrhyw wrthrych ar waliau'r ty/eiddo.



Bydd gwarant ar wydnwch y sistem dros gyfnod y gwarant, ni fydd gwarant ar edrychiad yr arwyneb oherwydd bydd angen gwath cynnal i sicrhau ac adnewyddu'r edrychiad, fel arfer ar ol oddeutu 15 mlynedd o amodau hinsawdd normal.



Gofal, Cynnal a Chadw yr Ynysydd

Gofal Cyffredinol

- Byddwch yn ofalus rhag gwneud niwed i'r system/wal gydag offer megis biniau, biniau ail gylchu, berfau, beiciau ayyb yn enwedig i gorneli'r adeilad. Os bydd achosion o niwed rhowch wybod i **CCG** mor fuan a phosib.
- Peidiwch a gadael i blanhigion dyfu i fyny'r waliau ble mae'r ynysydd wedi ei osod.
- Gellir gosod planhigion i ddringo i fyny'r wal yn ddiogel ar ddellt bwrpasol wedi ei gosod yn gywir gydag offer priodol. Ni fydd hyn yn niweidiol mewn unrhyw ffordd ond mewn amser gellir disgwyl marciau neu staeniau ar arwyneb y wal.



Defnydd o Ysgolion

Mae'n bosib i unrhyw wal gyda rendriad arno gael niwed yn enwedig oherwydd camdefnydd o ysgolion. Gall ysgolion gyda blaen plastig arnynt niweidio'r agreg ac felly marcio wyneb y wal. I osgoi hyn...

- Defnyddiwch faton i ledaenu'r llwyth ar wyneb y wal.
- Lapiwch ddefnydd o amgylch y baton.
- Pan yn symud yr ysgol peidiwch a'i llusgo yn erbyn yr arwyneb.

